# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn / Ffacs: (01824) 703797
e-bost: cyngortrefrhuthun@sirddinbych.gov.uk

Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel / Fax: (01824) 703797
e-mail: ruthintowncouncil@denbighshire.gov.uk

*Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams*

Eich Cyf / Your Ref: Ein Cyf / Our Ref: Dyddiad / Date: 16 Mehefin 2014

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 23 MEHEFIN 2014** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Dafydd Williams*

Dafydd Williams
**Clerc y Dref**

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**
Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. **MENTER IAITH SIR DDINBYCH**
I dderbyn cyflwyniad gan Ruth Williams, Prif Swyddog.

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mai 2014.

7. **MATERION YN CODI**

8. **PWYLLGOR AMWYNDERAU**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2014.

**9. PWYLLGOR CYNLLUNIO**

I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2014.

**10. AELODAETH PWYLLGORAU 2014 / 2015**

I ystyried aelodaeth y gwahanol bwyllgorau (copi melyn).

**11. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL 2013 / 2014**

I adolygu a diweddaru rhestr cynrychiolaeth y Cyngor Tref (copi glas).

**12. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**

**(a) MENTER IAITH SIR DDINBYCH**

I dderbyn ac ystyried llythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £1,100.00 (mil a chant o bunnoedd) i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y dref (copi glas). Gweler hefyd eitem Agenda Rhif 3.

**(b) SIAMBR FASNACH RHUTHUN**

I dderbyn llythyr (eisoes wedi ei ddosbarthu) gan Gadeirydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £2,600.00 tuag at siop Canolfan Ymwelwyr Rhuthun ar Sgwâr Sant Pedr ac i ystyried y cais yma yn dilyn cyflwyniad gan Lois Hubbard a Nick Birch yn y Pwyllgorau diwethaf.

**13. TAITH GYFNEWID BATON Y FRENHINES**

I dderbyn adborth ar y digwyddiad uchod gymerodd le yn ddiweddar yng Nghae Ddôl / Canolfan Gymunedol Llanfwrog.

**14. COFRESTRU ANFONEBAU CANOLOG**

I dderbyn llythyr gan Gyngor Sir Ddinbych parthed anfonebau am nwyddau a gwasanaethau (copi melyn).

**15. NEUADD BENTREF SIR DDINBYCH / CANOLFAN GYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2014**

I dderbyn llythyr gan Wasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ynghyd a manylion am y gystadleuaeth uchod a ffurflen gais.

**16. COFFADWRIAETH 100 MLYNEDD ERS DECHRAU'R RHYFEL BYD CYNTAF**

I dderbyn manylion am Wasanaeth Arbennig i'w gynnal yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun ar fore Sul, 3ydd Awst 2014 am 10:30.a.m.

**17. DATGANIAD ARIANNOL**

I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31ain Mai 2014 copi gwyrdd).

**18. CYFRIFON I'W TALU**

I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 580 | Sandra Williams | Cyfieithu | * | 90.00 |
| 581 | Cyllid y Wlad | Treth ac Yswiriant gwladol | | 144.60 |
| 582 | Chris Birchall | Lluniau yn y Cyfarfod Blynyddol | | 165.00 |
| 583 | Fineline Printing & Statuionery | Cyflenwad Swyddfa | * | 28.45 |
| 584 | I.T. Williams Company Ltd | Hurio lori a dreifar i lwytho a chludo planwyr | * | 380.00 |
| 585 | Ground Control | Torri Glaswellt – Ebrill 2014 | * | 448.62 |
| 586 | Cyng. Stephen Beach | Lwfans y Maer (balans) | | 500.00 |
| 587 | Dafydd Williams | Stampiau ayyb | | 24.00 |

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £159.51)

**19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I gadarnhau dyddiadau cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Dydd Llun, 28 Gorffennaf 2014.